

**CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH**  
**COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL – 7:00 y.h. Dydd Llun 24 o Chwefror**  
**2026 Ystafell Gymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch ac ar ZOOM**

1. **Yn bresennol:** Arwel Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Wyn Jones, Manon Davies, Helen Jones, Bari Evans, Stephen Williams.

**Ymddiheuriadau:** Ian Evans (Is-gadeirydd), Edmund Evans.

2. **Adran siarad gyhoeddus:** Dim.

**3. Cofnodion cyfarfod 26 Ionawr 2026**

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Rhian Wyn Jones

Materion yn codi:

Pwynt 7:

Isbwynt (i): Gwnaeth Cyng. Stephen Williams fynegi diolch i'r Cyngor Sir am iddynt (yn ddiweddar) ysgubo'r lon a llenwi'r tyllau rhwng 'Pentre Farm' ac Bont y Ficerdy, ond yn gofyn am ei ailwynebu.

Isbwynt (vi): Gofynodd Cyng. Stephen Williams am adborth gan y Cynghorydd Sir ynglŷn â'r angen / cais blaenorol i osod biniau sbwriel yn ymyl y (2) lleoliad bws gerllaw 'Pentre Farm' (yn dal i aros).

9. Roedd dau o'r arwyddion atgoffa 20 m.y.a. wedi'u codi. Byddai'r gweddill yn dilyn yn fuan.

**4. Penodi Clerc newydd**

Roedd y person a oedd wedi dangos diddordeb yn y swydd bellach wedi tynnu'n ôl.

Cynigiwyd:

i. Ein bod yn cynyddu'r gyfradd gyflog i £20.37 (Pwynt Graddfa 31) am 18 awr y mis.

ii. Rydym yn hysbysebu ar Facebook ac ar hysbysfwrdd mewnol Sir Ddinbych yn gyntaf (Y Clerc i wneud hysbyseb JPEG a chysylltu â'r Sir).

iii. Byddai'r Cyngor yn hysbysebu mewn papurau newydd os na fyddai unrhyw rai yn cymryd y ffurflen.

Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Arwel Davies

**5. Cyllid**

i. Taliadau

a) Cyflog y Clerc (E. M. ab Owain) Chwefror 2026	£219.30
b) Treuliau'r Clerc Chwefror 2026	£20.46
c) CThEM (PAYE)	£54.60

Cynigiwyd: Cyng. Helen Jones Eiliwyd: Cyng. Manon Davies Pleidleisiodd: Unfrydol

ii. Balansau Banc: HSBC BMM £30,936.07 Elusen HSBC £11,592.45

iii . Llofnodwyr y cyfrif. Byddai'r Cadeirydd yn cymryd camau i ychwanegu'r clerch locwm at y llofnodwyr ar gyfer y cyfrif banc.

iv. Cymodi Cyfrifon: 3ydd Chwarter.

v. Gwiriodd y Cynghorwyr Stephen Williams a Phil Williams y cysondiadau ar y Cyfrif Elusennol a gwiriodd y Cynghorwyr Rhian Wyn Jones a Helen Jones gyfrif y BMM.

## **6. Byrddau Hysbysebion**

Archebwyd byrddau hysbysiad ar gyfer Peniel, Saron a Prion. Gofynnwyd i'r Clerc gael dyfynbris ar gyfer gosod y byrddau, a byddai'r cynghorwyr yn gofyn i ddau grefftwr lleol arall am ddyfynbrisiau.

Roedd y Clerc wedi gofyn am 3 dyfynbris ar gyfer y bwrdd pwrpasol ar gyfer Llanrhaeadr. Roedd wedi derbyn 2 ac yn aros am drydydd.

**7. Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Roedd y Cyngor wedi derbyn nifer o ddiweddariadau am gamau gweithredu a gymerwyd yn yr ardal gan gynnwys atgyweiriadau ffyrdd a lleoli biniau halen. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag ef ynghylch y gwaith diweddaraf ar y ffordd rhwng Fferm Pentre a Phont Vickerdy a hefyd unrhyw ddiweddariadau am lwybr troed o Bentre Llanrhaeadr a Hafod y Bryn.

## **8. Priffyrdd**

Gofynnodd y Clerc i Gynghorwyr anfon unrhyw fanylion atgyweiriadau ffordd oedd ei angen iddo a byddai'n eu nodi ar system adrodd 360 Gradd Sir Ddinbych.

## **9. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Llanrhaeadr yng Nghinmeirch**

Penododd y Cyngor y Cynghorydd Arwel Davies yn gynrychiolydd y Cyngor ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol.

## **10. Ceisiadau cynllunio:**

Newydd: Meifod, Saron, Dinbych, LL16 4SW. Amnewid lagŵn slyri a chloddiau pridd presennol gyda storfa slyri concret hirsgwar a gwaith cysylltiedig.

Dim Gwrthwynebiad. Cynnig: Arwel Davies Eilydd: Phil Williams

## **11. Grantiau**

### **i. Polisi grantiau**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu polisi grantiau drafft i'r Cyngor. Cynigiwyd bod hwn yn cael ei fabwysiadu.

Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Phil Williams

Ceisiadau Grant (gweler Atodiad 1)

### **ii. Merched y Wawr Llanrhaeadr**

Roedd cangen leol Merched y Wawr wedi gofyn am £500 ar gyfer llogi lleoliadau a ffioedd siaradwyr.

Cymeradwywyd. Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Barie Evans

### **iii. Canolfan Addysg Bro Cinmeirch, Pwyllgor Rheoli**

Gofynnodd y sefydliad hwn am £650 i dalu yswiriant eu hadeilad cymunedol ac atgyweirio cyfleusterau.

Cymeradwywyd. Cynigiwyd: Philip Williams Eiliwyd: Helen Jones

### **iv. Canolfan Gymunedol Capel Llanrhaeadr**

Gofynnodd y grŵp hwn am grant o £500 i dalu syrfêwr i asesu dichonoldeb trosi'r hen festri yn gyfleuster cymunedol.

Cymeradwywyd. Cynigiwyd: Philip Williams Eiliwyd: Helen Jones

### 12. Adroddiad blynyddol

Cyflwynodd y Clerc ddrafft o adroddiad blynyddol. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun a gofynnodd i'r Clerc ysgrifennu rhywfaint o destun ar gyfer y cyfarfod nesaf.

### 13. Sedd Wag ar y Cyngor

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Adran Gwasanaethau Etholiadau Cyngor Sir Dinbych a chael yr hysbysiadau angenrheidiol i hysbysebu'r swydd wag presennol ar gyfer etholiad.

### 14. Defibs

Roedd wedi dod i sylw'r Cyngor bod angen padiau newydd ar y defibs yn siop bentref Llanrhaeadr ac ar yr Ystafell Gymunedol yn yr ysgol. Cytunwyd mewn egwyddor i ariannu rhai newydd. Byddai'r Cynghorydd Barie Evans a'r Clerc yn holi pwy oedd yn gyfrifol am y ddau ddyfais.

15. Materion brys a godwyd gan y Cynghorwyr: Dim.

16. Cyfarfod nesaf: 30 Mawrth 2026.

Appendix 1

### Grantiau 23 Chwefror 2026

Pwy	Swm	Cyfansoddiad	Cyllid	Nodiadau
Canolfan Addysg Bro Cinmeirch	£666.17	Oes	Oes. Balans: £2685.45	
Merched y Wawr	£500.00	Oes	Oes	
Prosiect Cymunedol Capel y Pentre	£500.00	Oes	Na	